



Cynllun Pwnc Cerddoriaeth

Tachwedd 2018

CYMRAG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd-destun y Cynllun

Ym mis Ionawr 2017 cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae 'Tuag at 2020 a thu hwnt' yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith cynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y [Cynllun Academaidd](#) cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg.

Mae'r Cynllun Pwnc Cerddoriaeth yn gosod yr egwyddorion a'r nodau ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Cyd-destun/Cefndir y Pwnc

Mae traddodiad cymharol faith o gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Cerddoriaeth ar lefel addysg uwch yng Nghymru. Roedd darpariaeth yn y tri sefydliad a oedd yn cynnig cyrsiau gradd mewn Cerddoriaeth dros y blynyddoedd, sef Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd. Yna, yn 1973, penodwyd y darlithydd cyfrwng Cymraeg cyntaf yn Ysgol Cerddoriaeth Prifysgol Bangor. Yn dilyn diddymu Adran Cerddoriaeth Prifysgol Aberystwyth yn 1991, dau sefydliad yn unig a oedd yn cynnig unrhyw elfennau o'u graddau Cerddoriaeth ar lefel gradd brifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg, sef Prifysgol Bangor a Phrifysgol Chaerdydd. Yn 1993, sefydlwyd gradd B.A. Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, gyda chynnwys cerddorol sylweddol. Ers dechrau'r mileniwm, cynyddodd y ddarpariaeth eto, yn enwedig trwy fentrau a ariannwyd gan y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg ac, ers 2012, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn 2013, pan luniwyd y [Cynllun Pwnc blaenorol](#), roedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol De Cymru, gyda chynlluniau gradd BA a BMus Cerddoriaeth, BSc Technoleg Cerddoriaeth, BSc Technoleg Sain, a BA Cerddoriaeth Boblogaidd.

Erbyn blwyddyn academaidd 2017/18, Ysgol Cerddoriaeth Prifysgol Bangor yw'r prif ddarparwr cyfrwng Cymraeg. Mae cwrs BA Perfformio 2 flynedd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (a gyflwynwyd gyntaf yn 2015/16) yn cynnwys elfennau cerddorol, ond mae'r ddarpariaeth hon, yn ei chyfanrwydd, yn perthyn i Gynllun Pwnc y Diwydiannau Creadigol. Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig elfennau o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg ffurfiol yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Er hynny cynigir tiwtora cyfrwng Cymraeg mewn rhai meysydd arbenigol, ac adroddir ar hynny i HESA. Mae'r ddarpariaeth yn ymatebol i angen myfyrwyr. Nid oes cwota/targed o ran recriwtio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i'r cynlluniau gradd.

Mae'r niferoedd sy'n astudio Cerddoriaeth TGAU a Safon Uwch yn peri her o ran dilyniant i faes Addysg Uwch. Bu gostyngiad yn niferoedd y disgyblion a oedd yn astudio TGAU Cerddoriaeth rhwng 2016 a 2017 a gellid tybio bod hyn yn dueddiad dros sawl blwyddyn bellach. Mae ffigyrau'r [JQC](#) (tudalen 30) yn dangos nid yn unig y gostyngiad yn y niferoedd, ond hefyd cyn lleied yw'r ganran o ymgeiswyr TGAU Cerddoriaeth.

Hefyd, ceir toriadau mewn [gwasanaethau Cerddoriaeth, sy'n](#) her i'r maes. Serch hyn, mae gan y Llywodraeth gynlluniau i fuddsoddi yn y maes e.e. [Sefydlu Gwaddol Cerddoriaeth](#).

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi buddsoddi'n helaeth yn y maes Cerddoriaeth, drwy'r Cynllun Staffio a Grantiau Pynciol, Prosiectau Strategol (sy'n cynnwys cyflogi Swyddog Datblygu Cerddoriaeth rhwng 2011–2014) a Grantiau Bach (manylir ar hyn o dan y piler 'Adnoddau'), ac ysgoloriaethau.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol o fewn y Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg (e.e. drwy'r Cynllun Staffio). Mae cyfuniad o ffactorau'n effeithio ar ddyraniad grant pynciol ac a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2017, mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i gyflawni meini prawf y Cynllun Academaidd mewn Cerddoriaeth.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cywerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Proses

Datblygir y broses o gynllunio pynciol i fod yn broses o edrych yn fwy cyflawn ar y pwnc dan sylw a chynnig llwybrau i ddatblygu'r pwnc ar sail ystod o gwestiynau a fydd yn cyfrannu at sicrhau addysg uwch o'r radd flaenaf.

Gofynnwyd i brifysgolion gwblhau ffurflen cynllunio pynciol fel un cam yn y broses o lunio'r Cynllun Pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, niferoedd myfyrwyr a lefel staffio ym mlwyddyn academaidd 2016/17. Mae'r targedau yn y Cynllun yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau uchelgeisiol ond cyraeddadwy o ran datblygiad y maes drwy gyfrwng y Gymraeg. Drafftwyd y Cynllun Pwnc gan Swyddogion y Coleg Cymraeg, gyda chyfle i brifysgolion ymgynghori, cyn ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg.

Ystyrir bod un prifysgol (Bangor) yn greiddiol i'r Cynllun Pwnc tra bod prifysgol arall (Caerdydd) yn dymuno cyfrannu ac elwa ar weithgareddau cydweithredol ond nad ydynt yn debygol o ddatblygu darpariaeth na chynyddu capasiti yn y maes penodol hwn.

Egwyddorion a Themâu

Mae'r egwyddorion a'r themâu a osodwyd yn y Cynllun Academaidd gwreiddiol yn parhau'n weithredol tra bo'r Cynllun newydd yn ystod y cyfnod nesaf yn canolbwyntio ar y nod o sicrhau y cynigir addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

Strwythur y Cynllun

Mae'r Cynllun Pwnc Cerddoriaeth yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Rhwir mwy o bwyslais ar gyd-destun polisi a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n benodol i'r maes Cerddoriaeth.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17)			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr¹
Prifysgol Bangor	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg (yn cynnwys ôl-radd)	3 aelod o staff rhan-amser yn siarad Cymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 3 aelod o staff rhan-amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 7 aelod o staff llawn amser yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	O leiaf 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 41 sy'n gallu siarad Cymraeg BI1–BI3
<i>Prifysgol Caerdydd*</i>	<i>Rhywfaint o ddarpariaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg</i>	<i>2 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg 1 aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn rhan-amser)</i>	<i>Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 49 sy'n gallu siarad Cymraeg BI1–BI3 + 1 ôl-radd</i>

* Derbyniwyd ffurflen Cynllunio Pynciol gan Brifysgol Caerdydd ond nid yw'r wybodaeth yn gyflawn. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wedi ei gynnwys yn y tabl. Nodwyd hefyd "Yn cefnogi a chynnig hyfforddiant lle bo'n bosib drwy gyfrwng y Gymraeg, ond gyda niferoedd staff sy'n medru'r Gymraeg yn isel, anodd yw cynnal y ddarpariaeth".

¹ Gwybodaeth yn seiliedig ar y data a oedd yn gyfredol yn 2016/17 ac yn gyson â'r dull adrodd arferol i HESA.

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol

Profiad Myfyrwyr

Sicrhaodd yr Ysgol Cerddoriaeth Prifysgol Bangor 100% yn yr Arolwg Cenedlaethol i fyfyrwyr yn 2016.

Bu cryn fuddsoddiad yng [nghyfleusterau'r](#) Ysgol, gan gynnwys £250,000 ar ailadeiladu a gwella safonau'r stiwdios recordio a chyfansoddi, yn ogystal â standiau cerdd proffesiynol ar gyfer y gerddorfa symffoni.

Cynhelir gweithdai cerdd gyda cherddorion proffesiynol er mwyn cyfoethogi profiad y myfyrwyr. Caiff myfyrwyr y cyfle i weithio gydag ysgolion lleol a mudiadau trydydd sector fel rhan o fodiwl 'Cerddoriaeth yn y Gymuned'. Mae myfyrwyr yn rhannu eu profiadau fel rhan o ymgyrchoedd recriwtio'r Ysgol e.e. ar gysiau adolygu AS ac A2.

Rhoddir Tiwtor Personol (cyfrwng Cymraeg) i bob myfyriwr sy'n siarad y Gymraeg (iaith gyntaf neu ail iaith). Mae'r adborth a roddir i fyfyriwr ar gyfer darn o waith (yn y Gymraeg) yn gyfan gwbl yn yr iaith honno. Caniateir i fyfyrwyr Cymraeg roi cyflwyniadau seminar yn y Gymraeg, os yw tiwtor y modiwl yn siarad yr iaith. Sicrheir bod pob myfyriwr Cymraeg yn cael hyfforddiant offerynnol neu leisiol yn y Gymraeg – os oes tiwtor offerynnol/lleisiol ar gael gan yr adran.

Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth ganfod a chreu cyfleoedd i'r myfyrwyr gydweithio gyda myfyrwyr o ddisgyblaethau eraill e.e. cynllun 'Cyfansoddwch *aria*'. Rhoddir pob cefnogaeth i fyfyrwyr geisio sicrhau profiad gwaith yn ystod hafau'r Flwyddyn 1af, yr 2ail a'r 3edd a chreu cysylltiadau yn y byd cerdd (e.e. myfyriwr yn gweithio'n rhan-amser fel derbynnnydd yng Nghanolfan Gerdd William Mathias (Caernarfon), myfyrwyr sydd â diddordeb mewn cerddoriaeth mewn iechyd a lles yn mynychu cartrefi preswyl, megis Cartref Gofal Dementia Bryn Seiont (Caernarfon). Ceir cwrs ffurfiol ym mlwyddyn 2 a 3, sydd yn cymhell myfyrwyr i sicrhau profiad gwaith a hynny fel paratoad ar gyfer cyflogadwyedd. Dyfarnwyd 100% i'r Ysgol Cerddoriaeth am ei chyfartaledd Cyflogadwyedd yn 2017 (ac rydym yn gobeithio y bydd canlyniad tebyg yn 2018 hefyd).

Mae'r ysgol yn annog eu myfyrwyr i gystadlu mewn cystadlaethau cerddorol (e.e. Tlws y Cerddor yn yr Eisteddfod Ryng-golegol, Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol), ac i gyfrannu at weithdai adrannol (e.e. ymweliad Cerddorfa Genedlaethol y BBC ar gyfer gweithdy cyfansoddi). Yn yr un modd, maent yn cymhell eu myfyrwyr i ymwneud ag ensemblau, corau a chwmnïau cerdd y tu hwnt i'r brifysgol.

	<p>Mae'r brifysgol yn darparu cefnogaeth academaidd drwy Wasanaethau Myfyrwyr. Darperir cyrsiau Gloywi laith gan Ganolfan Bedwyr. Rhoddir cefnogaeth i bob myfyriwr i wella ei ddefnydd o'r iaith. Ym mlwyddyn academaidd 2017–18, cafwyd enghraifft o un myfyriwr meistr a ddaeth o dalaith Georgia, UDA, a wnaeth fynd ati i ddysgu Cymraeg er mwyn cynnal ymchwil pellach mewn i gerddoriaeth Gymraeg a Chymreig. Rhoddir cefnogaeth sgiliau astudio yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o fodiwl Astudio Cerddoriaeth (Blwyddyn 1), sy'n fodiwl craidd ar gyfer pob myfyriwr Cerdd.</p> <p>Mae Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg yn agored i bob myfyriwr, os ydynt yn derbyn ysgoloriaeth ai peidio.</p>
<p>Darlithwyr</p>	<p>Buddsodwyd mewn dwy ysgoloriaeth ymchwil a thair swydd o dan Gynllun Staffio'r Coleg Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Mae dau o'r tri deiliad swydd a gyllidwyd yn parhau i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Coleg hefyd wedi buddsoddi mewn Cerddoriaeth mewn sefydliadau eraill drwy gyllido un Cymrodoriaeth Addysgu a dwy swydd cynllun staffio.</p> <p>Gall unrhyw un sy'n aelod o'r Coleg Cymraeg elwa ar y Cynllun Datblygu Staff.</p> <p>Mae deg aelod o staff yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (7 llawn amser a 3 rhan-amser).</p> <p>Mae 15 o athrawon offerynnol a llais yn darparu gwersi drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Drwy haelioni'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (a'r buddsoddiad sylweddol a wnaethpwyd ers 2011–12), y mae'r Ysgol Cerddoriaeth wedi llwyddo i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr. Mae'r staff sydd yn gweithio yn yr Ysgol yn ymddiddori yn y traddodiad Cymreig ac yn cyfrannu ato e.e. drwy gyfrwng ymchwil Cerddoregol, drwy gyfansoddi (confensiynol ac ar gyfer ffilm), trwy gyfrwng perfformio, a thrwy hyrwyddo'r pwnc yn y gymuned gyfan.</p> <p>Dymuniad Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penodi darlithydd rhan-amser (0.5 CALI) i ddiwallu'r angen am fodiwlau ym maes Cerddoriaeth Cymru a diogelu buddiannau Archif Cerddoriaeth Draddodiadol yr Ysgol Cerddoriaeth yn dilyn ymddeoliad un aelod o staff ar 31 Gorffennaf (2018); • Penodi darlithydd rhan-amser (0.5 CALI) i sefydlu modiwlau ym maes Seicoleg Cerddoriaeth (a hynny er mwyn ymestyn y ddarpariaeth ym myd lechyd a Lles o dan ofal Dr Gwawr Ifan; • Penodi darlithydd rhan-amser (0.25) i sefydlu modiwlau ym maes Cyfansoddi ar gyfer gemau cyfrifiadurol.

	<p>Mae Gweinyddwraig yr Ysgol yn rhugl yn y Gymraeg ac yn cynnal safonau dwyieithrwydd drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Cyfrannodd sawl aelod o staff yr Ysgol at nifer o ddigwyddiadau yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn ym mis Awst 2017.</p> <p>Ymunodd un darlithydd (Dr Gwawr Ifan) â Crwsibl Cymru yn 2017.</p> <p>Bu un arall o aelodau'r staff (Dr Iwan Llewelyn-Jones) yn cwblhau cymwyster dysgu (tystysgrif PGcert) eleni.</p>
<p>Cwricwlwm</p>	<p>Yn sgil ei harbenigedd (cyfansoddi, perfformio, cerddoreg a.y.b.) y mae'r Ysgol Cerddoriaeth wedi dylanwadu ar y byd a'r bywyd Cymreig ac yn ymwybodol iawn o'r angen i gynnwys sawl agwedd ar y bywyd hwnnw fel rhan o'n cwricwlwm (e.e. Cerddoriaeth mewn iechyd a lles – canu corawl yng Nghymru; Cyfansoddi – cyfansoddi operâu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg; Perfformio – perfformio gweithiau gan gyfansoddwyr o Gymru mewn lleoliadau yng Nghymru a thu hwnt). Mae'r Ysgol yn cynnig dewis eang ac unigryw o fodiwlau. Mae'r Ysgol yn/wedi datblygu modiwlau newydd iaith Gymraeg sy'n ateb gofynion y byd cerdd o'n cwmpas.</p> <p>Caiff myfyrwyr Cymraeg yr Ysgol Cerddoriaeth yr un cyfleodd i wrando ar ddarlithwyr gwadd o sefydliadau Addysg Uwch o Loegr, Ewrop a thu hwnt ag y mae'r myfyrwyr di-Gymraeg yn eu cael. Yn yr un modd, bydd darlithwyr o'r Ysgol Cerddoriaeth yn derbyn gwahoddiadau i rannu eu hymchwil mewn cynadleddau ac mewn sefydliadau AU yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Er enghraifft, yn 2017–18, traddododd rhai o ddarlithwyr yr Ysgol ddarlithoedd am eu meysydd arbenigol yn Sweden, Iwerddon, Yr Alban, Ffrainc, Korea a'r Dominican Republic.</p> <p>Ar gyfer y cynllun <i>Making An Aria</i> ar y cyd â'r cwmni opera Music Theatre Wales, a gafodd ei gynnal rhwng Hydref 2017 a Mai 2018, dewisiwyd un myfyriwr cyfrwng Cymraeg i gydweithio gyda myfyrwraig o'r adran Gymraeg i gyfansoddi aria yn y Gymraeg, a gwnaeth un myfyriwr arall di-Gymraeg (o Rhiwabon ger Wrecsam) osod geiriau Cymraeg ar gyfer ei gân ef hefyd. Dyma'r tro cyntaf i'r prosiect hwn ymwneud yn uniongyrchol â gosodiadau yn yr iaith Gymraeg.</p>

	<p>Cyfrannodd yr Ysgol Cerddoriaeth ym Mangor at weithgaredd yr Athro Wyn M. Thomas (Abertawe) i lunio llyfryddiaeth ar y traddodiad cerddorol yng Nghymru (2000–2016). Mae'r llyfryddiaeth hwn bellach yn cael ei ddefnyddio gan athrawon ysgol ledled Cymru.</p> <p>Cyhoeddir y Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru gan Wasg y Lolfa ym mis Medi 2018. Y gobaith yw y bydd o ddefnydd i ddisgyblion, athrawon, ymchwilwyr y BBC ac S4C, myfyrwyr isradd, ôl-radd ynghyd â myfyrwyr ymchwil a darlithwyr fel ei gilydd.</p> <p>Y mae ymdrechion y Gymdeithas Ddysgedig (ym maes Cerddoriaeth) yn seiliedig ar gynlluniau addysgu cerddorol yr Ysgol Cerddoriaeth ym Mangor.</p>
<p>Canlyniadau Myfyrwyr</p>	<p>Y mae'r Cymry Cymraeg sy'n astudio yn yr Ysgol Cerddoriaeth yn cael gofal a chefnogaeth arbennig. Maent yn rhan o ddosbarthiadau bach; maent yn barod i holi darlithwyr a sicrhau'r cyfarwyddyd angenrheidiol. Byddwn yn cydweithio'n agos gyda'n myfyrwyr Cymraeg – byddant yn cyflawni gwaith o safon (gan amlaf) ac yn aml yn rhan o gategoriâu 2.i a 1af yn y rhestrau canlyniadau'n flynyddol. Derbyniodd un myfyriwr radd dosbarth cyntaf uchel iawn eleni, gydag un arall hefyd yn derbyn gradd gyntaf cyd-anrhydedd Cerddoriaeth a Chymraeg.</p> <p>Mae safon yr addysg a gaiff ein myfyrwyr Cymraeg yn cyfateb i'r hyn a gaiff y myfyrwyr Saesneg. Mae safon y gofal a'r gefnogaeth yn well o lawer. Ceir proses flynyddol o arsylwi cydweithwyr mewn seminarau a darlithoedd er mwyn cynnal a datblygu safonau dysgu.</p> <p>Y mae ein myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cyflawni lawn cystal â'n myfyrwyr di-Gymraeg. Bydd y Cymry Cymraeg yn derbyn graddau Dosbarth 1af, 2.i a 2.ii.</p> <p>Y mae graddau mynediad y Cymry, ar y cyfan, yn uwch na graddau derbyn y di-Gymraeg. Bydd rhai myfyrwyr yn aeddfedu ac yn ymelwa'n llawn o holl agweddau ar y cwrs Cerdd, tra bod eraill (o blith y Cymry) yn dueddol o barhau'n gaeth i Neuadd John Morris Jones a cholli'r cyfle i ymestyn a datblygu eu crefft. Mae'r raddfa trosiant o'r radd gyntaf ac ymlaen i radd meistr a PhD ymysg y Cymry at ei gilydd yn uwch nac oddi mewn i'r sector di-Gymraeg.</p> <p>Y mae cyfleoedd y Cymry i ddilyn cwrs Meistr (drwy gyfrwng y Gymraeg) yn well o lawer na'r di-Gymraeg. Gan fod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chronfeydd fel Cronfa Pantyfedwen yn cynnig ysgoloriaethau Meistr i rai sydd wedi eu geni yng Nghymru, y mae hyn yn hynod fanteisiol i'n myfyrwyr.</p>

<p>Adnoddau</p>	<p>Mae'r Coleg Cymraeg wedi cyllido a chefnogi'r prosiectau a'r gweithgareddau canlynol ym maes Cerddoriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Darlithoedd rheolaidd rhyng-sefydliadol ar bynciau cerddorol ▪ Diwrnod recordio yn yr ATRiuM, Prifysgol De Cymru (myfyrwyr Caerfyrddin a De Cymru yn cydweithio ar brosiect penodol) ▪ Cynhadledd myfyrwyr Cerddoriaeth yn Aberystwyth (Chwefror 2012) ▪ Dilysu a throsglwyddo modiwl traws-sefydliadol, Cerddoriaeth Cymru Heddiw ▪ /Diwylliannau Cerddorol Cyfoes ar draws tri sefydliad o 2011–12 Ymlaen ▪ Dilysu'r modiwl Diwylliannau Cerddorol (L4) er mwyn ei drosglwyddo o Brifysgol Bangor i Brifysgol De Cymru yn ystod 2012–13 ▪ Cynhadledd ymchwil amlddisgyblaethol ar thema 'Y Ferch Greadigol' ym Mhrifysgol Bangor (5-7 Hydref 2012), gyda phapurau gan siaradwyr o Fangor, Abertawe, Aberystwyth, a Chaerdydd ▪ Cynhadledd Boddi Mewn Celfyddyd – Gwaddol '65 (Mehefin 2015) ▪ Archif Sioeau Cerdd (ers 2012/13) ▪ Esboniadur Cerddoriaeth yn cynnwys cofnod sylweddol ar Tich Gwilym ▪ Prosiect digido DECHE - Y Traddodiad Cerddorol yng Nghymru – Ifor ap Gwilym ▪ Y Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru – i'w lansio yn 2018 <p>Erthyglau Gwerddon:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Wyn Thomas, 'Annie Ellis "Cwrt Mawr", Cantorion Aberystwyth a chanu traddodiadol Cymru' (2007) ▪ Gwawr Ifan, "'Un Llef Pedwar Llais": Dylanwad canu corawl ar iechyd a lles yng Nghymru' (2012) ▪ Craig Owen Jones, "Ar y brig unwaith eto": siartiau pop iaith Gymraeg cynnar' (2013) ▪ Craig Owen Jones, 'Brwydr Iaith, Brwydro Iaith: Terminoleg y byd pop Cymraeg fel dull protestio yn y 1960au a'r 1970au' (2013) ▪ Craig Owen Jones, 'Papurau bro cynnar gogledd Cymru a cherddoriaeth roc Gymraeg' (2016) ▪ Rhai erthyglau eraill gan gyn-fyfyrwyr yr adran (e.e. Leila Salisbury a Nia Davies Williams)
------------------------	--

	<p>Mae Archif S4C (mae angen mewngofnodi i gael mynediad llawn ato) yn cynnwys rhaglenni dogfen yn ymweud â cherddorion a cherddoriaeth.</p>
<p>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</p>	<p>Y mae'r Ysgol Cerddoriaeth yn ymdrechu'n galed i sicrhau bod ei graddedigion yn cael swydd neu yn dilyn cwrs pellach ar ôl graddio. Dyma oedd sail llwyddiant y gorffennol (100% yn 2016–17).</p> <p>Cynhelir un digwyddiad (diwrnod cyfan o hyd) ar Gyflogadwyedd ym maes Cerddoriaeth ym mhob semestr yn 2017–18.</p> <p>Gwahoddir cyn-fyfrwyr sydd yn gweithio ym myd Cerddoriaeth i annerch e.e. Ruth Evans (Wrecsam) sy'n gweithio i Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru; Gwennant Pyrs (cyn-bennaeth Cerddoriaeth, Ysgol David Hughes, Porthaethwy).</p> <p>Drwy gyfrwng Ysgoloriaethau (Interniaethau) Banc Santander, caiff ein myfyrwyr gradd ac ôl-radd brofiad o weithio mewn cwmnïau lleol (e.e. interniaeth gyda'r BBC ym Mangor).</p> <p>Gwirfoddoli: bydd yr Adran yn derbyn ceisiadau niferus am wirfoddolwyr (o blith y myfyrwyr) i gyfrannu at brosiectau cerddorol yn y gymuned e.e. Codi'r To; Camau Cerdd (Canolfan Gerdd William Mathias, Caernarfon).</p> <p>Bydd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg Ysgol Cerddoriaeth Prifysgol Bangor yn cael cyfle i ymweld â chwmnïau a sefydliadau cerddorol yng Nghymru (e.e. Cwmni Sain, Llandwrog; Venue Cymru, Llandudno). Bydd ein myfyrwyr yn dilyn cyfnod swyddogol o brofiad gwaith fel rhan o'r modiwl 'Cerddoriaeth yn y Gymuned' a Gweinyddu'r Celfyddydau.</p> <p>Drwy gyfrwng Ysgoloriaethau Santander, KESS a.y.b., bydd ein myfyrwyr ymchwil yn cael cyfleoedd i feithrin perthynas agos â chwmnïau cerdd sy'n gweithredu yng Nghymru.</p> <p>Mae adroddiad Exploring Music Careers – music graduates and early career trajectories in UK² yn awgrymu bod graddedigion Cerddoriaeth yn ymwybodol o'r heriau wrth ddilyn gyrfa yn y maes. Maent yn fwy</p>

² <http://www.routledge.com/books/details/9780415718882/>

Comunian, R., Faggian A., ac S. Jewell (2014), *Exploring music careers: music graduates and early career trajectories in UK*, yn Crossley, N., S. McAndrew, a P. Widdop (goln), *Social Networks and Music Worlds* (Routledge), tt. 165–88.

	<p>Ilewyrchus yn y farchnad lafur na graddedigion mewn meysydd creadigol eraill ond hefyd yn fwy tebygol o barhau mewn addysg. Mae trosglwyddo o fyd addysg i fyd gwaith yn peri mwy o broblemau iddynt ond maent yn canfod swyddi gwell yn yr hir dymor. Ystyrir pwysigrwydd creu rhwydweithiau tra yn y brifysgol a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd allgyrsiol sydd ar gael.</p> <p>Mae adroddiad Measuring Music: 2016 Report³ yn adrodd yn gadarnhaol iawn am gyfraniad cerddoriaeth i economi'r Deyrnas Unedig, a'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil hynny.</p>
<p>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</p>	<p>Tra bod nifer y darlithwyr (cyfrwng Cymraeg) sydd ar gael ym Mangor yn niferus, eu pryder pennaf yw'r lleihad yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio'r maes yng Nghymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd yr Ysgol (a'r darlithwyr cyfrwng Cymraeg) yn cynnal Cynadleddau Un-dydd (e.e. yn Wreccsam a Bangor) yn flynyddol yn unig er mwyn denu mwy o Gymry i'r Adran.</p> <p>Mae nifer iachus o ddarlithwyr yn gallu darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae saith myfyriwr PhD cyfredol yn medru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae gan yr Ysgol agwedd ragweithiol tuag at recriwtio ac ymgysylltu ag ysgolion, sy'n cynnwys cynnal sesiynau adolygu Safon Uwch a dathlu Dydd Miwsig Cymru (prosiect ar y cyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru).</p>

³ <https://www.ukmusic.org/assets/general/measuring-music-2016.pdf> *Measuring Music: 2016 Report*. UK Music.

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol/sefydliadol			
Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 mlynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
1. Lefel Darpariaeth	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn	O leiaf 120 credyd ar gael ym mhob blwyddyn
2. Niferoedd Darlithwyr	O leiaf 8.5 aelod staff CALI	O leiaf 8.5 aelod staff CALI	O leiaf 8.5 aelod staff CALI
3. Nifer Myfyrwyr	O leiaf 10 ym mhob blwyddyn (BI 1–3) yn astudio o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg.	Mwy na 10 ym mhob blwyddyn (BI 1–3) yn astudio o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg gyda datblygiad yn parhau ar lefel Meistr a PhD.	O leiaf 15 ym mhob blwyddyn (BI 1–3) yn astudio o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg gyda datblygiad pellach yn parhau ar lefel Meistr a PhD.
4. Profiad Myfyrwyr (a Darlithwyr)	Parhau i gynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned – trwy gynorthwyo mewn ysgolion a mudiadau trydydd sector a thrwy berfformio mewn digwyddiadau cyhoeddus.	Parhau i gynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned – trwy gynorthwyo mewn ysgolion a mudiadau trydydd sector a thrwy berfformio mewn digwyddiadau cyhoeddus.	Parhau i gynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned – trwy gynorthwyo mewn ysgolion a mudiadau trydydd sector a thrwy berfformio mewn digwyddiadau cyhoeddus.
5. Adnoddau	Lansio ac hyrwyddo'r <i>Cydymaith i Gerddoriaeth</i> Cynnal trafodaeth – pa adnoddau sydd eu hangen?	Gwerthuso'r <i>Cydymaith</i> a'i integreiddio i'r arlwy dysgu ac addysgu.	Addasu ac ychwanegu deunydd digidol ar gyfer y <i>Cydymaith</i> fel rhan o brosiect ar-lein ar y cyd â'r Porth. Sicrhau gwaddol ar gyfer y prosiect uchelgeisiol hwn.

<p>6. Dilyniant</p>	<p>Adnabod a chymryd cyfleoedd i gyfrannu at rwydweithiau, byrddau ymgynghori/llywio a mynd i ddigwyddiadau er mwyn hyrwyddo'r maes.</p>	<p>Adnabod a chymryd cyfleoedd i gyfrannu at rwydweithiau, byrddau ymgynghori/llywio a mynd i ddigwyddiadau er mwyn hyrwyddo'r maes.</p> <p>Cynnal gweithgaredd/au sy'n targedu disgyblion ysgol (ym mha bynnag Gyfnod Allweddol). Gwerthuso'n flynyddol.</p>	<p>Adnabod a chymryd cyfleoedd i gyfrannu at rwydweithiau, byrddau ymgynghori/llywio a mynychu digwyddiadau er mwyn hyrwyddo'r maes.</p> <p>Cynnal gweithgaredd/au sy'n targedu disgyblion ysgol (ym mha bynnag Gyfnod Allweddol). Gwerthuso'n flynyddol.</p> <p>Swyddogion Cangen i sicrhau bod y TSI yn cael ei hysbysebu'n eang (y tu hwnt i ddeiliaid ysgoloriaethau).</p>
----------------------------	--	---	--